Cyflwyno **Abertawe**
Lwyddiannus a Chynaliadwy

Cynllun Corfforaethol
Dinas a Sir Abertawe 2018/22

Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Rhagair

Mae nifer o heriau mawr yn wynebu'r byd, y DU, Cymru ac Abertawe. Er mwyn wynebu'r heriau hyn, bydd gofyn i ni weithio mewn ffordd wahanol i'r ffordd rydym wedi gweithio o'r blaen.

Mae newidiadau mawr yn digwydd i boblogaeth Abertawe, fel gweddill y DU a Chymru. Rydym yn heneiddio, mae ein cymunedau'n fwy amrywiol a bydd y boblogaeth yn parhau i dyfu. Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn golygu ein bod yn gweld cynnydd mewn rhai afiechydon a chyflyrau, megis dementia. Mae poblogaeth sy'n tyfu a chynnydd yn nifer yr aelwydydd yn golygu bod darparu tai ychwanegol a fforddiadwy'n flaenoriaeth. Mae lefelau tlodi ac anghydraddoldeb iechyd yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel. Mae hyn oll yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus ar adeg lle gwelir bod cyllidebau ac arian yn dynn.

Mae globaleiddio, newidiadau i dwf economaidd byd-eang a symud o weithgynhyrchu i economïau sy'n seiliedig ar dechnoleg, ynghyd â BREXIT, yn creu heriau i economïau'r DU, Cymru ac Abertawe ond hefyd gyfleoedd y mae angen manteisio arnynt os ydym yn mynd i gyflawni'n potensial.

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r peryglon a'r heriau mwyaf sydd yn ein hwynebu ni gyd, ac mae angen i ni feddwl am sut gallwn addasu, lleihau ein hallyriadau carbon thŷ gwydr a lleihau ein perygl o lifogydd ac effeithiau sylweddol eraill. Mae hyn hefyd yn ymwneud â gwneud gwell defnydd o'n tir a'n hadnoddau naturiol wrth geisio amddiffyn ein hamgylchedd naturiol a gwella bioamrywiaeth.

I fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd. I roi ansawdd bywyd da i breswylwyr presennol a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni feddwl beth fydd effaith tymor hir ein penderfyniadau. Mae'n rhaid i ni wneud pethau'n wahanol er mwyn newid pethau. Os ydym yn mynd i drechu'r heriau hyn, mae angen i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'n gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio ymagwedd fwy cydlynol. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru rydym am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Ni fydd hyn yn hawdd a bydd yn cymryd amser i'w wireddu. Mae Dinas a Sir Abertawe wedi dechrau yn dda ond mae llawer i'w wneud o hyd. Mae Abertawe'n parhau i wthio ffiniau arfer cynaliadwy. Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion, ynghyd â'n hamcanion lles, fel y'u disgrifiwyd yn y Cynllun Corfforaethol hwn, eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol at wella lles economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac Abertawe; ond mae angen i'r cyngor wneud fwy i ddangos ei fod yn cyfrannu at y Gymru a'r Abertawe a garem a'i fod yn gweithio mewn ffordd sy'n dangos bod arfer cynaliadwy wedi'i wreiddio'n llwyr yn ei fusnes. Mae Dinas a Sir Abertawe yn hollol ymrwymedig i sefydlu cynaladwyedd fel ei egwyddor drefniadol ganolog. Bydd yn adeiladu ar arferion da sydd eisoes yn bodoli ac yn parhau i feithrin ei ymrwymiad gynyddol aeddfed i ddatblygu cynaliadwy, wrth i ni ddysgu gyda'n gilydd ar hyd y daith a llywio'r hyn rydym yn ei wneud nawr ac yn y dyfodol.

Cyng. Rob Stewart
Arweinydd y Cyngor

Phil Roberts
Prif Weithredwr

1. Cyflwyniad - Adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol a'r Amcanion Lles

Cyhoeddodd Dinas a Sir Abertawe ei ddatganiad lles cyn 31 Mawrth 2017 fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd y datganiad lles yn nodi'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2017/18. Y blaenoriaethau hyn, a elwir yn 'amcanion lles', yw ein hamcanion ar gyfer gwella lles amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol Abertawe a Chymru.

Aethom ati i adolygu a chyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol hwn ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

Aed ati i adolygu'r Cynllun Corfforaethol a'm hamcanion lles drwy ymgynghori â phobl leol a thrwy asesu'r dystiolaeth ganlynol:

- Tueddiadau a heriau'r dyfodol.
- Asesiad o les lleol.
- Ein hamcanion cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.
- Cyfeiriad at ddangosyddion cenedlaethol.
- Ein hymrwymiadau polisi.

Yn dilyn yr adolygiad hwn, diwygiwyd ein Cynllun Corfforaethol a'r amcanion lles ar gyfer 2017/22 a chafodd crynodeb o'r datganiad lles ei gynnwys yn y cynllun.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd i fodloni ein hamcanion lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol[1] sy'n cael eu hamlinellu yn y Ddeddf.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi sut rydym yn mwyafu'n cyfraniad at ein hamcanion lles a'n nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio, sy'n unol ag egwyddorion cynaliadwy fel a ganlyn:

- Edrych ymlaen at yr heriau tymor canolig a thymor hir.
- Atal problemau rhag codi neu waethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrthddweud ei gilydd, a'u bod yn ategu rhai cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

2. Diwygio'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/22

Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ddiwygio ar gyfer 2018/22. Mae hyn yn dilyn llunio Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), adolygiad o gynnydd ac

[1] Y Nodau Cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

asesiad o'r dystiolaeth, gan ystyried sut gallwn gau unrhyw fylchau a mwyafu'n cyfraniad at y nodau cenedlaethol ymhellach.

Y prif newid yn dilyn yr adolygiad yw bod chweched amcan lles wedi'i ychwanegu at y Cynllun Corfforaethol - *'Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe'*

Er nad oedd amcan lles penodol yn gysylltiedig â natur yn y Cynllun Corfforaethol cyn 2018/19, mae amcanion lles y cyngor yn gyfres integredig sydd gyda'i gilydd yn ceisio mynd i'r afael â holl agweddau ar les, gan gynnwys lles amgylcheddol.

Fodd bynnag, mae nifer o resymau dros ychwanegu amcan lles sy'n ymwneud â natur -

- Bydd yn caniatáu i'r cyngor ddangos ei fod yn mwyafu ei gyfraniad at y nod llesiant cenedlaethol *'Cymru Gydnerth - Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).'*

- Cyflwyno Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae hyn yn atgyfnerthu nod Cymru gydnerth drwy osod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol sef y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau[2]. Bydd yn ofynnol i'r cyngor lunio cynllun Adran 6 (A6). Mae'r arweiniad statudol yn awgrymu mai arfer gorau fyddai cynnwys cynllun A6 yn y Cynllun Corfforaethol.

- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mabwysiadu 'Gweithio gyda Natur' fel un o'i bedwar amcan lles. Bydd y chweched amcan lles newydd yn helpu i sicrhau bod amcanion y cyngor yn cyd-fynd yn well â rhai'r BGC fel y'u hamlinellir yng nghanllawiau statudol y Ddeddf.

- Mae Ymchwiliad Craffu i *'Amgylched Naturiol Abertawe'* yn mynd rhagddo ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon ac mae'n debygol o argymell cynnwys chweched amcan lles ar 'natur' yn y Cynllun Corfforaethol am y rhesymau a amlinellir uchod.

Mae crynodeb o ddiwygiad i'n datganiad lles cyhoeddedig ar gyfer 2018/22 yn dilyn. Mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r datganiad lles yn dilyn yr adolygiad o'n hamcanion lles a'n Cynllun Corfforaethol.

3. Crynodeb o'r Datganiad Lles

Ein Cynllun Corfforaethol – gweledigaeth, gwerthoedd, egwyddorion ac amcanion lles

[2]Adran 6 Deddf yr Amgylchedd - '*Mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyhyd ag y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n gywir.'*

Mae ein Cynllun Corfforaethol *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy* a'n hamcanion lles yn amlinellu sut byddwn yn gweithio i ateb heriau presennol a rhai'r dyfodol.

Yr heriau sydd i ddod

Mae Abertawe'n wynebu sawl her yn y blynyddoedd sydd i ddod, sy'n cynnwys:

- Newidiadau poblogaeth - Abertawe sy'n tyfu, sy'n heneiddio ac sy'n fwy amrywiol.
- Newidiadau economaidd - denu buddsoddiad, swyddi o safon a thechnoleg newydd i Abertawe wrth fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.
- Newid yn yr hinsawdd - peryglon llifogydd, ansawdd aer a dŵr, peryglon i ecosystemau a bioamrywiaeth a diogelwch ynni.
- Newidiadau cymdeithasol a diwylliannol - mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd.

Rydym wedi ceisio mynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol drwy ein Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles.

Ein hamcanion a'n hymrwymiad i breswylwyr – ein hamcanion lles

Er mwyn ymateb i'r heriau hyn, rydym wedi blaenoriaethu'r chwe amcan lles, sef:

- ***Diogelu*** *pobl rhag niwed* – er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a chamfanteisio.
- *Gwella* ***Addysg a Sgiliau*** *- fel bod pawb yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arno i lwyddo mewn bywyd.*
- *Trawsnewid ein* ***Heconomi a'n Hisadeiledd -*** fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg, ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.
- ***Trechu Tlodi*** - fel bod pob person yn Abertawe'n gallu cyflawni ei botensial.
- Cynnal a gwella ***Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth*** Abertawe - fel ein bod yn cynnal ac yn cyfoethogi bioamrywiaeth, yn lleihau ein hôl-troed carbon, yn gwella'n gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol a'n dealltwriaeth ohono ac yn gwella'n hiechyd a'n lles yn sgîl hyn.
- ***Trawsnewid a datblygu'r cyngor yn y dyfodol*** - fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.

Ychwanegwyd yr amcan lles - *Cynnal a Chyfoethogi Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe* - wrth ddiwygio'n Cynllun Corfforaethol a'r amcanion lles ar gyfer 2018/2022 fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn Adran 2.

Sut byddwn yn gweithio – ein gwerthoedd a'n hegwyddorion

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion a fynegwyd yn ein Cynllun Corfforaethol yn sail i gyflawni'n hamcanion lles ac maent yn adlewyrchu'r ffyrdd cynaliadwy o weithio:

Ein Gwerthoedd
Mae ein cynlluniau'n seiliedig ar dri gwerth clir a fydd yn arwain y ffordd rydym yn gweithio, sut byddwn yn datblygu fel sefydliad a'n penderfyniadau yn y blynyddoedd i ddod.

- ***Ffocws ar Bobl***

Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau cymunedau ac ar wella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Byddwn hefyd yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithwyr ac yn dangos y safonau uchaf o gywirdeb.

- ***Gweithio gyda'n gilydd***

Byddwn yn hyrwyddo ymagwedd partneriaeth gyfan, gan weithio ar draws gwasanaethau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwybodaeth a byddwn yn gweithio gydag eraill y tu allan i'r cyngor i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn cael y gwasanaethau gorau ar gyfer ein cymunedau.

- ***Arloesedd***

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant blaengar. Byddwn yn meddwl ac yn gweithio'n wahanol i wella ein gallu i gyflawni ac i ymdopi â'r heriau ariannol, demograffig a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu. Byddwn yn rhannu arfer da ar draws y cyngor fel rhan o'n Rhaglen Arloesedd.

Ein Hegwyddorion
Bydd ein cynlluniau a'n blaenoriaethau yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol. Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion lles a chânt eu plethu i mewn i'n ffordd o weithio.

- ***Cynaladwyedd***

Byddwn yn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe.
Mae hyn yn golygu sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'n egwyddor allweddol sydd wrth wraidd y strategaeth *Trawsnewid a'r Cyngor yn y Dyfodol* a'n strategaeth *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol*, sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'r cyngor, gan sicrhau dichonoldeb ariannol y cyngor a gwella canlyniadau i breswylwyr.

Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i gynnwys a cheisio barn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae ataliaeth ac integreiddio yn ganolog i'r egwyddor cynaladwyedd a byddwn yn datblygu cynlluniau tymor hir er mwyn mynd i'r afael â'n hamcanion lles, gan gydweithio ag eraill. Drwy'r ymagwedd hon, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion *Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

- ***Ataliaeth***

Byddwn yn ymyrryd yn gynharach er mwyn cefnogi pobl sydd yn y perygl mwyaf, yn newid ymddygiad ac yn atal yr angen am wasanaethau arbenigol drud, gyda rhaglen gefnogi tymor hir yn aml. Bydd hyn yn helpu i wneud teuluoedd a chymunedau'n fwy

gwydn, yn lleihau'r galw am wasanaethau'r cyngor, yn lleihau costau ac yn cyflawni gwell canlyniadau. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd cyngor cyfan tuag at reoli'r galw am wasanaethau, gan geisio gwella ein dealltwriaeth o gyswllt â chwsmeriaid a sut gellir ail-lunio gwasanaethau er mwyn atal, lleihau neu arallgyfeirio galw.

- ***Partneriaethau***

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, busnes a gwirfoddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy ffyrdd cydweithredol eraill er mwyn wynebu'r heriau a rennir gan Abertawe a'i chymunedau.

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd 'Tîm Abertawe', gan weithio fel cyngor cyfan i sicrhau bod pob gwasanaeth yn gallu chwarae rôl mewn cyfrannu at ein hamcanion lles a sicrhau ein bod yn rhannu adnoddau ac arbenigedd. Er mwyn diwallu anghenion ein preswylwyr a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu Abertawe, mae'n rhaid cael partneriaethau cynhyrchiol, integreiddio ein gwasanaethau'n well a rhannu adnoddau.

Cyflawni – y camau

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn dangos bod ein holl amcanion lles gyda'i gilydd a'r camau rydym yn eu cymryd i'w cyflwyno'n dangos ein cyfraniad at bob un o'r saith nod cenedlaethol ac at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru.

Nid yw'n cyfraniad at y nodau cenedlaethol a lles Abertawe a Chymru wedi'u mynegi yn ein Cynllun Corfforaethol yn unig. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi ein hamcanion lles allweddol a'n cyfraniad ond mae hefyd yn rhan o'n Fframwaith Gwella Perfformiad ehangach, sy'n cynnwys Cynlluniau Gwasanaeth adrannol, y Cynllun Corfforaethol ynghyd â'r Cynlluniau Gwasanaeth sy'n datgan ein cyfraniad llawn. Gwelir y broses hon yn y diagram isod:



Cyflawni – ffyrdd cynaliadwy o weithio

Byddwn yn mwyafu eto'n cyfraniad at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru drwy wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio.

Adlewyrchir y ffyrdd hyn o weithio yn ein gwerthoedd a'n hegwyddorion ond hefyd yn y camau rydym yn eu cymryd ac rydym yn bwriadu eu cymryd, ac a amlygir yn y tabl drosodd, er mwyn mwyafu ein cyfraniad.

- **Edrych ymlaen at heriau'r tymor hir**

Mae ein Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles yn ceisio mynd i'r afael â heriau presennol a thymor hwy.

Rydym wedi dechrau datblygu ymhellach ein gallu i ragweld a chymryd rhagolwg strategol tymor hir sy'n edrych ar dueddiadau a senarios y dyfodol er mwyn creu darlun strategol o'r 10 i'r 25 mlynedd nesaf. Rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu darlun o'r hyn y gallai tueddiadau'r dyfodol ei olygu i'r cyngor ac i gymunedau Abertawe yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda staff, aelodau etholedig, ein partneriaid a'r cyhoedd i ychwanegu at y gwaith rydym wedi'i wneud o'r blaen, sy'n cynnwys sut gallai tueddiadau'r dyfodol gael effaith ar lefel gymunedol.

Diben y gweithdai hyn yw nodi barn gyffredin ar heriau'r dyfodol, a rhoi braslun o beth yw 'da' i gyfeirio datblygiad polisi a dylunio a chyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

- **Atal problemau rhag codi neu waethygu**

Gyda'n hamcanion lles, rydym yn gweithio i atal problemau neu eu hatal rhag gwaethygu.

Mae angen i'r cyngor barhau i ddatblygu ei ymagwedd ataliol ac i'r perwyl hwnnw, mae wedi datblygu *Strategaeth Atal.* Bydd y strategaeth hon yn gwreiddio ymyrryd ac atal cynnar ymhellach ym musnes y cyngor a rhoi hyd yn oed mwy o ffocws ar wella lles.

- **Sut mae ein hamcanion lles yn perthyn i'w gilydd ac i gyrff cyhoeddus eraill.**

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, na ellir ystyried y blaenoriaethau hyn fel rhai sy'n gwbl amherthnasol i'w gilydd. Mae'r holl amcanion lles yn effeithio ar ei gilydd.

Er enghraifft, mae gwella addysg a sgiliau'n bwysig iawn i'n hymdrechion i leihau tlodi a gwella'r ddinas a'r economi, sy'n golygu trawsnewid ein system addysg i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc y sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr economi newydd.

Gwelir y gyd-ddibyniaeth hon yn y diagram drosodd:



Rydym yn gweithio i nodi cysylltiadau ac effeithiau posib amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni er mwyn amlygu lle gall y fath bolisïau/raglenni atgyfnerthu neu danseilio'i gilydd.

Rydym wedi datblygu offeryn integreiddio a gaiff ei ddefnyddio i nodi a chryfhau rhyngddibyniaethau.

Rydym wedi defnyddio'r offeryn hwn i asesu ac adolygu'n Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles, sydd wedi helpu i fapio'n cyfraniad at y nodau cenedlaethol a nodi mwy o opsiynau ar gyfer mwyafu'r cyfraniad at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru.

Yn ystod yr adolygiad o amcanion lles a Chynllun Corfforaethol y cyngor, aeth cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i un o'r digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus i lywio datblygiad y cynllun.

Ymgysylltwyd yn fwy â'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch ein hamcanion lles yn 2017 ac yn 2018 wrth lunio cynllun lles y BGC; Cynigiwyd cyfle i bartneriaid y BGC gymryd rhan mewn arolwg i helpu i gyfeirio'r adolygiad o amcanion

- **Gweithio ar y cyd ag eraill**

Rydym yn cydweithio â phartneriaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector er mwyn cymryd camau i gyflawni ein hamcanion lles, gan ddangos ein cyfraniad a'n hopsiynau ar gyfer mwyfau'r cyfraniad at les cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Abertawe a Chymru.

Mae ein datganiad lles llawn yn disgrifio enghreifftiau lle mae gwaith partneriaeth yn allweddol i gyflwyno'n hamcanion lles. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda chwe awdurdod lleol arall i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- Gweithio mewn partneriaeth ar ddiogelu gyda chynrychiolwyr o bob un o'r prif asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am helpu i amddiffyn plant ac oedolion rhag cam-drin ac esgeulustod drwy fyrddau Diogelu Plant ac Oedolion Bae'r Gorllewin.
- Gweithio gyda thri awdurdod lleol arall, Llywodraeth Cymru, Prifysgolion a'r sector preifat drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe i drawsnewid tirlun economaidd yr ardal, rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

- **Cynnwys ein holl ddinasyddion yn yr hyn rydym yn ei wneud**

Mae'r cyngor yn ymroddedig i ymgynghori â phreswylwyr, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr a'u cynnwys ym mhroses benderfynu'r cyngor. Mae gennym *Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys* ar waith, wedi'i seilio ar gyfres o egwyddorion ac wedi'i chefnogi gan *Becyn Cymorth Ymgynghori* i ymarferwyr er mwyn eu helpu i gynnwys preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae *Panel Lleisiau Abertawe Ar-lein* yn cynnwys sampl cynrychioliadol o breswylwyr y mae'r cyngor yn ymgynghori â hwy'n rheolaidd am ei wasanaethau a materion lleol. Adnewyddir ei aelodaeth yn rheolaidd er mwyn rhoi'r cyfle i gynifer o bobl â phosib gymryd rhan. Mae meysydd diweddar a fu'n destun ymgynghoriad yn cynnwys adfywio canol y ddinas a blaenoriaethau ar gyfer cyllideb y cyngor.

Yn ogystal â hyn, mae'r cyngor yn ymgysylltu ag amrywiaeth o'r boblogaeth drwy grwpiau a fforymau amrywiaeth, megis y Rhwydwaith 50+, y Fforwm BAME a'r Fforwm LGBT. Mae disgyblion ysgol yn ymwneud â'u haddysg drwy Gynghorau Ysgol a thrwy *Lais y Disgybl*, sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at gynyddu cyfranogiad disgyblion fel a nodir yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP); Abertawe oedd y cyngor cyntaf yn y DU i fabwysiadu a gwreiddio CCUHP. Mae digwyddiadau Sgwrs Fawr y cyngor yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod materion sydd o bwys iddynt a dylanwadu ar bolisi'r cyngor.

Mae gweithredu yn y gymuned a chyfranogaeth gymunedol yn ganolog i sut mae'r cyngor yn cynllunio ac yn cyflwyno gwasanaethau. Cefnogir creu grwpiau 'cyfeillion' er mwyn adfywio parciau, traethau a rhandiroedd lleol. Mewn gofal cymdeithasol, mae ymagweddau at arfer proffesiynol sy'n seiliedig ar gryfderau hefyd yn cynnwys helpu pobl â'u teuluoedd i ymdrin â'u problemau eu hunain drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u rhinweddau, a'r hyn y gallant ei gyfrannu.

Mae gennym gynlluniau i gynnwys mwy o bobl leol ym mhenderfyniadau'r cyngor sy'n effeithio arnyn nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau ac mae'n datblygu *Strategaeth Cydgynhyrchu* er mwyn gwneud hyn. Byddwn yn ceisio sefydlu fforwm i wirfoddolwyr cymunedol er mwyn eu cynnwys yn y broses benderfynu a rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn a'u safbwyntiau.

Cynnwys pobl yn ein hamcanion lles

Roedd yr adolygiad o'n Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles ar gyfer 2017/22 yn cynnwys tair ymagwedd wahanol at gynnwys pobl: (i) grwpiau ffocws gyda phobl ifanc (o 9 ysgol uwchradd wahanol), (ii) dau grŵp ffocws gydag aelodau'r cyhoedd a chynrychiolwyr o sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar nodi heriau presennol a rhai'r dyfodol, yr hyn y dylid ei wneud a beth yw 'da' a (ii) dau arolwg ar-lein o aelodau'r cyhoedd a phanel dinasyddion y cyngor yn eu tro. Roedd canlyniadau o'r gyfranogaeth hon wedi helpu i lunio'n Cynllun Corfforaethol diwygiedig a'n hamcanion lles.

Roedd yr ymgynghori a'r cynnwys mewn perthynas â'n hamcanion lles wedi nodi nifer o themâu a heriau cyffredin. Caiff y rhain eu crynhoi isod ac eir i'r afael â hwy drwy ein hamcanion lles:

Ffyniant economaidd ac adfywio canol y ddinas

- Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r Fargen Ddinesig ar draws y rhanbarth.
- Creu mwy o brentisiaethau a mynd i'r afael â'r bwlch oedran a chyfleoedd cyflogaeth i'r bobl hynny sy'n bellach i ffwrdd o'r farchnad lafur.
- Manteisio ar gyfleoedd sy'n codi o dwf technoleg newydd, gwyddoniaeth a diwydiannau creadigol.
- Gwella'r cynnig hamdden, twristiaeth a diwylliannol a gwella isadeiledd Abertawe.
- Gwella cludiant ac isadeiledd.
- Yr angen am economi wledig gynaliadwy.

Heriau amgylcheddol

- Annog twf carbon lleol a chludiant fforddiadwy a hygyrch.
- Adeiladu mwy o gartrefi ynni effeithlon.
- Gofalu am yr amgylchedd a chynyddu ymwybyddiaeth ohono a hyrwyddo ailgylchu.
- Gwarchod parciau, darparu mwy o fannau agored a hyrwyddo bioamrywiaeth.
- Buddsoddi mewn technoleg werdd ac ynni adnewyddadwy.

Iechyd, gofal cymdeithasol a lles

- Galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a heneiddio'n dda.
- Atal digartrefedd a darparu tai fforddiadwy.
- Cefnogi gofalwyr.
- Gweithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar cyn iddynt fynd i'r ysgol
- Mynd i'r afael â gordewdra a maeth gwael.

Cydlyniant diwylliannol, cymdeithasol a chymunedol

- Mynd i'r afael â cham-drin a bwlio plant.
- Annog gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol.
- Cynnal mwy o ddigwyddiadau diwylliannol a chymunedol.
- Delio â throseddau casineb a hyrwyddo amrywiaeth a chydlyniant.

Gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at wneud penderfyniadau

- Yr angen i ganolbwyntio ar ymyrryd ac atal cynnar a lleihau galw ar y gwasanaethau cyhoeddus.
- Darparu mwy o wybodaeth a chefnogaeth ar sut i gael mynediad at wasanaethau a chefnogaeth.
- Gweithio mwy mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys y trydydd sector.
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn fwy wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau ac wrth wneud penderfyniadau.

Cynhaliodd y cyngor arolwg arall fel canllaw a 'gwiriad tymheredd' i helpu i gyfeirio'r gwaith i ddiwygio'r Cynllun Corfforaethol a'r amcanion lles ar gyfer 2018/22. Gofynnwyd am farn ymatebwyr ynghylch amcanion lles presennol y cyngor ac ai'r rhain oedd yr amcanion iawn i wella lles yn Abertawe ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol. Gofynnwyd iddynt am eu barn ynghylch cyfres o gamau a chamau gweithredu i gyflawni pob amcan.

Yn gyffredinol, dengys canlyniadau'r arolwg lefel cymharol uchel o gefnogaeth ymhlith ymatebwyr ar gyfer amcanion lles presennol y cyngor a'r camau gweithredu arfaethedig y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i wireddu'r amcanion hyn; roedd mwy na 9 o 10 ymatebwr yn cytuno mai amcanion lles presennol y cyngor oedd y rhai iawn ar gyfer Abertawe.

Derbyniwyd nifer o awgrymiadau ynghylch natur a'r amgylchedd fel blaenoriaeth lles ychwanegol, yn ogystal â'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â natur a'r amgylchedd a allai helpu'r cyngor i roi'r amcanion lles eraill ar waith. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r camau arfaethedig y dylai'r cyngor eu cymryd mewn perthynas â thrawsnewid ein heconomi a'n hisadeiledd a threchu tlodi, roedd ambell ymatebwr yn cwestiynu ai rôl y cyngor oedd ymwneud yn uniongyrchol â rhai meysydd; er enghraifft, wrth archwilio sefydlu gwesty newydd neu gefnogi ehangu Stadiwm Liberty. Yn yr un modd, er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi cryfhau'r Gymraeg, roedd rhai yn cwestiynu cost cyfle'r gweithgarwch hwn, o'i chymharu â blaenoriaethau a galwadau eraill a wynebir gan y cyngor o ran lleihau cyllidebau a phwysau ar adnoddau.

Ein cyllideb - adnoddau ar gyfer ein hamcanion lles

Yn dilyn ymgynghoriad â staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, mae adroddiad ar y gyllideb yn mynd gerbron y Cabinet ac yna caiff ei drafod mewn cyfarfod cyngor llawn. Mae gan y cyngor £400 miliwn i'w wario. Daw'r mwyafrif helaeth o'r arian hwn o'r Llywodraeth a grantiau, ac rydym yn codi mwy o arian drwy dreth y cyngor ac incwm. Dyma sut y dyrennir y gyllideb ar hyn o bryd (2018/19):



Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllideb 2019/20 ar waith erbyn yr hydref. Er y gallai'r swm o arian rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru leihau erbyn y flwyddyn nesaf, bydd angen sicrhau llawer mwy o arbedion i wrthbwyso'n rhagolwg o £20 miliwn o wariant ychwanegol, sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, megis chwyddiant yn codi, codiadau cyflog cenedlaethol na chânt eu hariannu a demograffeg.

Rydym hefyd yn meddwl y bydd ein cyllid gan Lywodraeth Cymru'n lleihau'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod, sy'n golygu y bydd gennym £60m yn llai i'w wario ar adeg pan fo'r galw am wasanaethau fel gofal cymdeithasol yn cynyddu.

Mae'r cyhoedd eisoes wedi dweud wrthym mai eu blaenoriaethau yw ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol. Eto, maent hefyd yn dweud wrthym fod rhai digwyddiadau penodol, glanhau strydoedd a chynnal a chadw priffyrdd yn bwysig iawn iddynt. Mae ein cyllideb yn cynnwys rhestr o flaenoriaethau cyllidebol yn unol â'n hamcanion lles fel y'u nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol. Ond gyda llai o arian, bydd yn rhaid i ni wario llai ar y blaenoriaethau hyn a gwneud toriadau mwy mewn meysydd eraill er mwyn mantoli'r cyfrifon.

Rydym yn codi dros £110 miliwn mewn treth y cyngor bob blwyddyn, ond nid yw hyn hyd yn oed yn talu am gostau ein gwasanaethau cymdeithasol, heb sôn am yr holl wasanaethau eraill a ddarperir gennym. Mae cost gyffredinol gwasanaethau'r cyngor yn golygu nad yw cynyddu Treth y Cyngor yn unig yn opsiwn. Felly, rhaid i ni gymryd camau eraill.

4. Ein hamcanion lles

Mae rhan nesaf y cynllun yn nodi'n hamcanion lles ar gyfer 2018/22. Caiff pob amcan ei ddisgrifio'n fanwl dan y penawdau canlynol.

- **Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.**
- **Yr heriau tymor hwy y bydd pob amcan lles yn helpu i fynd i'r afael â hwy.**
- **Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob amcan lles.**
- **Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.**
- **Sut byddwn yn mesur cynnydd.**
- **Cyfraniad pob amcan lles at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Diogelu pobl rhag niwed

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.

- Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod dinasyddion yn byw eu bywydau'n rhydd o niwed ac ecsbloetiaeth.

- Mae angen ystyried bod diogelu pobl ddiamddiffyn yn fusnes i bawb ym mhob gwasanaeth yn y cyngor, gan yr holl aelodau etholedig a chan y rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor.

- Rydym hefyd am i blant fod yn ddiogel rhag niwed ac aros gyda'u teuluoedd neu dderbyn cefnogaeth mewn lleoliadau teuluol, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.

- Rydym am sicrhau bod yr holl oedolion diamddiffyn yn cael eu diogelu rhag niwed ac yn gallu byw eu bywyd i'r eithaf.

- Rydym am fynd i'r afael â cham-drin domestig a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n llawn.

- Rydym am i bobl heneiddio'n dda a gallu byw mor annibynnol a diogel â phosib, a hynny yn eu cartrefi eu hunain.

Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

- Poblogaeth sy'n heneiddio'n cynrychioli cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

- Cynnydd mewn clefydau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, fel dementia.

- Lleihau digwyddiadau cam-drin domestig, gan gynnwys ei effaith ar blant.

- Nodi a chefnogi pobl sy'n darparu gofal di-dâl yn Abertawe.

- Rhoi mwy o bwyslais ar atal yn hytrach na chanfod a chywiro i helpu i ymdrin â'r galw cynyddol am wasanaethau statudol.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.

- Rhoi'r *Polisi Diogelu Corfforaethol* newydd ar waith i sicrhau bod diogelu'n 'fusnes i bawb'.

- Parhau i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu a sut i nodi pryderon ac adrodd amdanynt ymhlith staff y cyngor, aelodau etholedig, partneriaid, y cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor.

- Parhau i sicrhau bod y Gwasanaethau i Oedolion, Plant a Theuluoedd yn gadarn ac yn bodloni'r gofynion statudol a osodwyd ar yr awdurdod fel y'u hamlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn effeithiol, er mwyn gwella canlyniadau lles i oedolion diamddiffyn yn Abertawe.

- Diweddaru a diwygio'r Strategaeth Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) i reoli'r galw a chefnogi gwaith dwysach â phlant ag anghenion cymwys a lleihau nifer y plant y bydd angen iddynt dderbyn gofal (PDG).

- Parhau i roi'r *Strategaeth Magu Plant Gorfforaethol* ar waith i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.

- Deall y goblygiadau ar gyfer Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod i ddinasyddion ac archwilio gwelliannau pellach y gallai'r cyngor eu gwneud.

- Parhau i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cyfle i leisio'u barn am y gwasanaethau maent yn eu derbyn drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a thrwy arfer sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a'u rhinweddau a'r hyn y gallan nhw a'u teuluoedd ei wneud i'w helpu eu hunain.

- Parhau i sicrhau bod trefniadau diogelu cadarn ar waith i ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl o niwed ac ecsbloetiaeth sylweddol.

- Parhau i gryfhau cydweithrediad a phartneriaethau diogelu drwy Fyrddau Diogelu Plant ac Oedolion Bae'r Gorllewin.

- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a rhoi ymyriadau a chefnogaeth effeithiol ac amserol ar waith.

- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â diogelu yn ei ystyr ehangach; er enghraifft, troseddau casineb, caethwasiaeth fodern a bwlio mewn ysgolion.

- Cynnal fframwaith ar gyfer cyflwyno'r rhaglen ymyriadau *PREVENT* ar y cyd â phartneriaid i gefnogi oedolion diamddiffyn a allai fod mewn perygl o gael eu denu i eithafiaeth dreisgar a/neu anhreisgar.

- Sicrhau y caiff *Strategaeth Atal* y cyngor ei mabwysiadu, ei chyflwyno a'i monitro'n effeithiol er mwyn rheoli angen a gwella lles.

- Rhoi mynediad cyfartal i wasanaethau i bobl a pharhau i gynyddu annibyniaeth pobl a'r gallu i fyw yn eu cartrefi eu hunain am hwy a gwella ansawdd bywyd.

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bawb, gan gynnwys gofalwyr a gofalwyr ifanc.

- Gweithio gyda phartneriaid drwy'r Strategaeth *Heneiddio'n Dda* i aros yn iach a heneiddio'n dda.

- Datblygu statws Abertawe fel y ddinas gyntaf yng Nghymru "Sy'n Ystyriol o Ddementia".

- Gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i sefydlu *Siarter ar gyfer Pobl Hŷn* i sicrhau y clywir lleisiau pobl hŷn.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus;	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru iachach	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
		☑	☑		☑	

Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* - datblygu gwasanaethau ataliol i osgoi'r angen i bobl orfod defnyddio gwasanaethau statudol.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - gwneud gwaith ataliol i leihau galw ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol gan boblogaeth sy'n heneiddio a mynd i'r afael â chyflyrau cysylltiedig megis dementia.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - mynd i'r afael â cham-drin domestig a helpu pobl i heneiddio'n dda gyda phartneriaid drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - gweithio gyda phartneriaid drwy drefniadau diogelu rhanbarthol Bae'r Gorllewin a thrwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- *Cynnwys pobl* - cynnwys gofalwyr a dioddefwyr cam-drin domestig yn eu gofal, a phlant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd, drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u rhinweddau a'r hyn y gallant ei gyfrannu, gan gynnwys rhieni, teuluoedd a chymunedau.

Sut byddwn yn mesur cynnydd.

- Aelodau Etholedig a staff y cyngor yn cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol.

- Prydlondeb wrth ymdrin ag atgyfeiriadau, ymholiadau ac asesiadau diogelu plant ac oedolion.

- Plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal ar y gofrestr amddiffyn plant.

- Oedolion a phlant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles.

- Cyfradd y gofalwyr sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion.
- Pobl sydd wedi cwblhau ailalluogi'n derbyn dim gofal neu lai o ofal chwe mis yn ddiweddarach.
- Prydlondeb wrth gwblhau Asesiadau Diogelu Colli Rhyddid.
- Cyfradd y trosglwyddiadau gofal o'r ysbyty i ofal cymdeithasol.
- Nifer y ceisiadau ar gyfer Cydlynu Ardaloedd Lleol.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod	Bydd pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda	Gweithio gyda natur	Cymunedau cryf
☑	☑		☑

Gwella **Addysg a Sgiliau**

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.

- Rydym am i Abertawe fod yn un o'r mannau gorau yn y byd i blant a phobl ifanc dyfu i fyny.

- Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe gyflawni, bod yn iach, bod yn wydn a bod yn ddiogel.

- Rydym am i blant a phobl ifanc fynd i'r ysgol yn rheolaidd am ei bod hi'n fwy tebygol y byddant yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i fynd ymlaen i addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.

- Rydym am i blant a phobl ifanc ennill cymwysterau a sgiliau sy'n addas ar gyfer anghenion economaidd y dyfodol a gallu cyfrannu'n gadarnhaol fel dinasyddion lleol gweithredol.

- Rydym am atal plant rhag colli diddordeb mewn dysgu.

- Fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal, rydym am i'n Plant sy'n Derbyn Gofal lwyddo yn yr ysgol a chael cyfleoedd am addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.

- Rydym yn cydnabod bod angen cefnogaeth amserol ac effeithiol ar blentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i ganiatáu iddo gyrraedd ei botensial llawn.

- Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau byd-eang fel y gallant fod yn ddinasyddion actif a chyfrifol, cyflawni eu potensial a gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau.

- Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc feddu ar sgiliau Cymraeg da.

Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

- Rydym am ddarparu'r sgiliau a'r cyfleoedd i'n pobl ifanc sy'n deillio o'r Fargen Ddinesig, gan sicrhau eu bod yn llwyddo mewn pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg), sgiliau digidol megis codio cyfrifiadurol a diwydiannau creadigol.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.

- Cydlynu'n system addysg a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn creu'r bobl iawn â'r sgiliau iawn i gyflenwi'r economi newydd ac ateb her Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

- Parhau i gefnogi a herio ysgolion i wella presenoldeb a pherfformiad disgyblion ac annog ysgolion i gefnogi ei gilydd.

- Parhau i ddatblygu a gwella partneriaethau ysgol.

- Parhau i ganolbwyntio ar wella llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd a chymhwysedd digidol ar bob oed.

- Gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Gwella darpariaeth ymhellach a chynyddu safonau cyflawniad i ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a gwella ymhellach ailintegreiddio i ysgolion.

- Trawsnewid ystâd yr ysgol i ateb y galw ac ymateb i'r datblygiadau a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wrth sicrhau buddion cymunedol o gontractau.

- Codi dyheadau galwedigaethol a lefelau sgiliau yn y gweithle, cyfrannu at ddatblygiad plant, pobl ifanc ac oedolion uchelgeisiol a medrus drwy ddarparu prentisiaethau.

- Datblygu sgiliau dysgu annibynnol ar gyfer dysgu gydol oes i adlewyrchu natur newidiol y gwaith, cefnogi lles a chreadigrwydd a lleihau unigedd cymdeithasol.

- Datblygu dinasyddion ifanc i barchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n ymwybodol o'r byd drwy barhau i gefnogi ysgolion i ddod yn *Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF* fel rhan o'n hymrwymiad i'r CCUHP.

- Parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg a'u cymuned drwy *Lais y Disgybl* a *Chynghorau Ysgol* a digwyddiadau cynnwys y *Sgwrs Fawr*.

- Ateb y galw am addysg Gymraeg a hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion drwy gynllun strategol *Y Gymraeg mewn Addysg*.

- Drwy ddefnyddio'n rhaglen adeiladu a chynnal a chadw ysgolion, byddwn yn lleihau ein hôl-troed carbon.

- Sicrhau nad yw ein plant diamddiffyn dan anfantais oherwydd tlodi neu ffactorau eraill sy'n eu cyfyngu neu'n eu hatal rhag cyflawni a chyrraedd safonau a lles mewn addysg.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus;	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru iachach	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
☑	☑	☑	☑	☑		☑

Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* - gwella presenoldeb mewn ysgolion, tegwch wrth ddarparu addysg, a chyflawniad dysgu fel y gall disgyblion wella'r sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i symud ymlaen i addysg uwch a phellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - sicrhau bod y cwricwlwm ysgol yn Abertawe'n rhoi cyfle i ddisgyblion ennill y sgiliau a'r cymwysterau ar gyfer y dyfodol, ac yn cyfrannu at lwyddiant Bargen Ddinesig Bae Abertawe wrth gynyddu ffyniant.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - gweithio gydag awdurdodau lleol drwy drefniadau rhanbarthol i gefnogi gwasanaethau gwella ysgolion.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - creu synergedd rhwng amcanion y cyngor a datblygiad economaidd.

- *Cynnwys pobl* - cynnwys disgyblion yn eu haddysg drwy *Lais y Disgybl, Cynghorau Ysgol* a digwyddiadau'r *Sgwrs Fawr* er mwyn dangos ein bod yn gwerthfawrogi'r rhanddeiliaid allweddol hyn.

Sut byddwn yn mesur cynnydd.

- Presenoldeb disgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

- Llythrennedd yn Gymraeg ac yn Saesneg a rhifedd ar wahanol oedrannau.

- Cyflawniad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

- Cyflawniad disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal gan y cyngor, disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a disgyblion o ardaloedd yr ystyrir eu bod yn yr 20% mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd yng Nghymru.

- Nifer y disgyblion sy'n dewis pynciau STEM a'u cyrhaeddiad ynddynt ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

- Y bobl ifanc y gwyddys eu bod yn NEET yn 16 oed.

- Prentisiaethau yn y cyngor a'r gymuned ehangach.

- Sicrhau wythnosau hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n anweithgar yn economaidd neu'n ddi-waith drwy gymalau budd cymdeithasol mewn contractau.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod	Bydd pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda	Gweithio gyda natur	Cymunedau cryf
☑		☑	☑

Trawsnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd**

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.

- Rydym am wella perfformiad economaidd a chreu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth i wella lles economaidd dinasyddion Abertawe.

- Sicrhawyd y buddsoddiad mwyaf erioed i dde-orllewin Cymru yn dilyn cymeradwyo Bargen Ddinesig arloesol Bae Abertawe ar 20 Mawrth 2017.

- Mae'r Fargen Ddinesig yn werth £1.3 biliwn a bydd yn trawsnewid tirlun economaidd yr ardal, yn hybu'r economi leol £1.8 biliwn ac yn creu bron 10,000 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.

- Yn Abertawe, caiff 100,000 troedfedd sgwâr o le swyddfa newydd, fforddiadwy a hyblyg ei adeiladu ar Ffordd y Brenin yng nghanol y ddinas ar gyfer busnesau technolegol fel rhan o'r pentref digidol a fydd yn elwa o isadeiledd digidol o'r radd flaenaf.

- Bydd y Fargen Ddinesig yn arwain at ddatblygiad 'pentref blychau' 215,000 o droedfeddi sgwâr yn Ardal Arloesedd y Glannau yn SA1 sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac sy'n eiddo i Brifysgol y Drindod Dewi Sant. Bydd hwn yn darparu lle fforddiadwy i gwmnïau newydd.

- Bydd y Fargen Ddinesig hefyd yn cefnogi digideiddio'r arena dan do arfaethedig sydd â lle i 3,500 o bobl ar gyfer safle datblygu canol dinas Abertawe, yn ogystal â datblygu sgwâr digidol i gynnwys sgriniau digidol a gwaith celf digidol.

- Bydd y Fargen Ddinesig yn hybu adfywio ffisegol canol y ddinas ymhellach, yn unol â'n Fframwaith Strategol diwygiedig ar gyfer Canol y Ddinas - yn enwedig datblygu a gwella eiddo a gwelliannau isadeiledd cysylltiedig, gan ddarparu isadeiledd galluogi i gefnogi adfywiad.

- Rydym am fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig ac adfywio canol y ddinas drwy greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r bobl ddi-waith a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd drwy gymalau budd cymunedol mewn contractau a chyflwyno gwasanaethau cefnogi cyflogadwyedd mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y cyngor a phartneriaid allanol.

- Rydym am gael fframwaith polisi cynllunio sy'n cefnogi twf ac adfywio ac yn sicrhau bod gan gymunedau dai o safon mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gymuned a chefnogi twf economaidd cynaliadwy.

- Rydym am fanteisio ar botensial twf sydd heb ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni cynaliadwy, amddiffyn yr amgylchedd a hybu'r economi, gan gynnwys parhau i roi pwysau ar y llywodraeth i gymeradwyo'r Morlyn Llanw.

- Rydym am fanteisio ar asedau ac isadeiledd naturiol, diwylliannol ac adeiledig Abertawe i ddatblygu'r economi wrth amddiffyn yr amgylchedd a gwella lles.

Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

- Mae twf technoleg glyfar a symudol a diwydiant uwch-dechnoleg yn debygol o barhau.

- Yng Nghymru, rydym ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill y DU o ran y sgiliau digidol sy'n angenrheidiol ar gyfer yr economi newydd, a bydd angen y rhain yn Abertawe drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

- Mae gan Abertawe nifer mawr o bobl oed gweithio nad ydynt yn gweithio.

- Mae tystiolaeth bod bwlch cynhyrchedd Abertawe (GVA) yn culhau, ond mae'r bwlch yn sylweddol o hyd. Ar hyn o bryd, mae nifer cymharol fach o fusnesau yn Abertawe'n cynhyrchu gweithgarwch economaidd o'i gymharu â chyfartaledd y DU, ac mae enillion y gweithle'n sylweddol is 'wrth gymharu yn yr un ffordd.

- Mae potensial mawr yng Nghymru ac yn Abertawe i gynhyrchu ynni cynaliadwy drwy'r Morlyn Llanw a phrosiectau cymunedol eraill, gan hybu'r economi leol a helpu i amddiffyn yr amgylchedd.

- Mae newid yn yr hinsawdd a pheryglon cysylltiedig fel llifogydd yn bygwth ein twf economaidd, ein cynhyrchedd, ein lles, ein hisadeiledd a'n hamgylchedd.

- Mae'n debygol y bydd y cerbyd preifat yn parhau'n brif ddull cludiant yn y dyfodol, ond mae cludiant cynaliadwy a fforddiadwy, a strategaeth ar gyfer system gludiant integredig i wasanaethu'n hardaloedd gwledig a threfol yn hanfodol er mwyn cael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant ac amddiffyn yr amgylchedd.

- Nid yw Abertawe'n cyflawni ei photensial o bell ffordd ac erys diffygion sylweddol yn nifer ac ansawdd y tai a'r isadeiledd cefnogi ar adeg pan fydd yr angen am dai a nifer yr aelwydydd yn tyfu.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.

- Gweithio gyda phartneriaid i roi'r Fargen Ddinesig ar waith i fuddsoddi mewn isadeiledd digidol a chefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchedd.

- Manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig a pharhau i adfywio canol y ddinas.

- Hybu a gwella economi leol amrywiol a chynaliadwy.

- Paratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer canol y ddinas.

- Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n cefnogi adfywio Abertawe ac yn hybu cymunedau cynaliadwy.

- Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer y di-waith tymor hir a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd drwy gymalau budd cymdeithasol mewn contractau.

- Gwella, ehangu ac amrywio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i helpu i hybu'r economi, hyrwyddo twristiaeth a gwella lles.

- Mynd ati i sicrhau y trosglwyddir cyfleusterau hamdden i bartner cyflwyno newydd y cyngor a datblygu strategaeth cynaladwyedd tymor hir ar gyfer gwasanaethau 'mewnol' ar draws y portffolio, gan gynnwys llyfrgelloedd, theatrau, orielau ac amgueddfeydd.

- Datblygu prosiect gwaith Copr yr Hafod a diwygio strategaeth Coridor yr Afon i nodi datblygiadau ategol.

- Parhau i weithio gyda Skyline Ltd i gyflwyno prosiect y gondola a'r car llusg ar Fynydd Cilfái.

- Adeiladu ar etifeddiaeth cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU drwy fynd ati i gymryd rhan yn rhaglen beilot Culturer 21 a chyflwyno'r naw ymrwymiad ar gyfer diwylliant mewn dinasoedd cynaliadwy.

- Hyrwyddo digwyddiadau hamdden a diwylliannol cyhoeddus i helpu i wella lles, hyrwyddo cydlyniant cymunedol a darparu buddion economaidd.

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau pentref chwaraeon rhyngwladol a chanolfan rhagoriaeth chwaraeon.

- Cyflwyno'r Strategaeth Ynni i leihau costau, darparu ynni rhatach a lleihau ein hôl troed carbon.

- Goruchwylio rheoli a datblygu economi gyda'r hwyr a hwyr y nos canol y ddinas, gan gynnwys cadw'r Faner Borffor, i sicrhau ei fod yn lle diogel, glân a chroesawgar i weithio ac ymweld ag ef.

- Cydweithio drwy bartneriaeth newydd Adfywio Abertawe i ddatblygu agenda adfywio Abertawe, gan gynnwys cyflwyno'r Rhaglen Buddsoddiad a Dargedir.

- Gweithio gydag eraill i ddarparu cludiant ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel gan ddarparu cysylltedd a symudedd gwell a rhatach a'r manteision economaidd cysylltiedig am gost amgylchedd is a gwell ansawdd aer.

- Cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a gwarchod mannau gwyrdd Abertawe, gan gynnwys parciau ar gyfer hamdden a chwarae, i hybu iechyd a lles.

- Rheoli arfordir Abertawe, hybu ansawdd dŵr ymdrochi a chynnal statws Baner Las ar draethau Abertawe i annog twristiaeth, amddiffyn yr amgylchedd a chefnogi lles.

- Gwneud cynnydd o ran tai strategol a safleoedd datblygu cymysg i ddiwallu'r angen am gartrefi a darparu cyflogaeth.

- Diogelu a hybu iechyd, lles, diogelwch a buddion cwsmeriaid pobl sy'n byw yn Abertawe neu'n ymweld â hi drwy weithio gydag eraill i gynnal diogelwch y cyhoedd ar draws yr amrediad o wasanaethau rheoli megis llygredd, gweithredoedd twyllodrus a masnachu annheg, iechyd y cyhoedd a materion tai etc.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus;	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru iachach	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑

Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* - hyrwyddo ynni adnewyddadwy a chludiant cynaliadwy i ddatblygu'r economi a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - ail-lunio Abertawe a'r economi ranbarthol i ateb heriau economaidd y dyfodol a newid technolegol drwy'r Fargen Ddinesig.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - gweithio gyda thri awdurdod lleol eraill, prifysgolion, Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a'r sector preifat i gyflwyno'r Fargen Ddinesig.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - mabwysiadu'r CDLl i gefnogi adfywio Abertawe a darparu glasbrint ar gyfer penderfyniadau cynllunio defnydd tir da a chyson ar gyfer y genhedlaeth bresennol a rhai'r dyfodol.

- *Cynnwys pobl* - proses ymgynghori a chynnwys helaeth yn ystod pob cam o ddatblygu'n *Cynllun Datblygu Lleol* er mwyn nodi cyfleoedd i ddiwallu angen tai a darparu cyflogaeth.

Sut byddwn yn mesur cynnydd.

- Prydlondeb wrth asesu ceisiadau cynllunio.

- Cymeradwyo ceisiadau cynllunio o bwys.

- Creu unedau tai ac arwynebedd llawr masnachol yng nghanol y ddinas.

- Gwerth buddsoddi mewnol yn Abertawe.

- Gwariant twristiaeth.
- Prosiectau sy'n cynnwys cymalau budd cymunedol a chreu nifer o wythnosau hyfforddiant.
- Lleihau carbon yn adeiladau'r cyngor.
- Cyflwyno'n Strategaeth Ynni Gorfforaethol.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd plant y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod	Bydd pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda	Gweithio gyda natur	Cymunedau cryf
☑		☑	☑

Trechu Tlodi

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.

- Rydym am gael Abertawe lle nad yw tlodi incwm yn rhwystr i wneud yn dda yn yr ysgol, cael bywyd iach a bywiog, datblygu sgiliau a chymwysterau a chael galwedigaeth sy'n rhoi boddhad.

- Rydym am herio mynediad annigonol i wasanaethau angenrheidiol o ansawdd da drwy dargedu adnoddau lle maent yn cael yr effaith fwyaf, gyda phenderfyniadau am hynny'n cael eu gwneud ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth.

- Rydym am i'n holl breswylwyr gael y cyfle a'r adnoddau i ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden ac wrth wneud penderfyniadau.

- Rydym am i bobl fwyafu eu hincwm a chael y gorau o'r incwm sydd ganddynt.

- Rydym am i bobl osgoi talu'r 'premiwm tlodi', sef y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel dalu am hanfodion megis tanwydd a chludiant.

- Rydym am sicrhau y chwelir rhwystrau i gyflogaeth megis cludiant a gofal plant.

- Rydym am sicrhau cynhwysiad pobl o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe fel ein bod yn lleihau anghydraddoldeb rhwng cymunedau ac oddi mewn iddynt.

Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

- Erys lefelau tlodi yng Nghymru'n gyson uchel, yn enwedig i bobl oed gweithio a'r rheiny dan 18 oed ac mae'r perygl o dlodi wedi cynyddu i aelwydydd sy'n gweithio a'r rhai di-waith.

- Rhagwelir y bydd tlodi plant yn y DU yn codi'n sylweddol o 29% yn 2014/15 i 36% yn 2020/21.

- Gall pobl sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ddisgwyl byw'n iach am bron 22 o flynyddoedd yn hwy na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

- Erys rhai agweddau niweidiol ar dlodi, megis cludiant, tanwydd a bwyd, yn uchel iawn yn Abertawe.

- Yn Abertawe, yr unig ffordd y caiff pobl y gorau o'u harian yw os oes ganddynt ddigon o wybodaeth eisoes, os ydynt wedi'u cysylltu'n dda yn ddigidol ac yn gallu mynd o le i le yn hawdd i fanteisio ar fargeinion. Y bobl sydd lleiaf tebygol o fod yn y sefyllfa hon yw'r rhai sydd eisoes yn dioddef effeithiau tlodi.

- Mae effaith andwyol yr amddifadedd hwn yn dechrau ar oed ifanc iawn ac yn cynyddu drwy gydol oes person. Gall camau gweithredu sy'n gymesur ag angen i

gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod y blynyddoedd cynnar iawn helpu i liniaru'r effaith hon a thorri'r cysylltiadau hyn.

- Mae gan Abertawe niferoedd mawr o bobl oed gweithio nad ydynt yn gweithio, ac mae angen mynd i'r afael â rhwystrau i waith megis profiad, gofal plant a chludiant.

- Mae'r newidiadau cyfredol o ran Diwygio Lles yn creu problemau newydd a mwy cymhleth i'r rheiny sydd eisoes mewn argyfwng ariannol, gan ddod â mwy o bobl nag o'r blaen i sefyllfa lle maent mewn argyfwng ariannol.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.

- Rhoi'r *Strategaeth Tlodi* ddiwygiedig ar waith i rymuso pobl leol, newid diwylliannau i bwysleisio bod trechu tlodi'n fusnes i bawb a thargedu adnoddau i gynyddu mynediad at gyfleodd a ffyniant i'r eithaf.

- Gweithio gyda'n partneriaid iechyd i sicrhau, drwy ein *Strategaeth Blynyddoedd Cynnar*, fod plant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran datblygiad ieithyddol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol a'u bod yn barod i ddysgu ac i fynd i'r ysgol.

- Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed.

- Helpu i fynd i'r afael ag effeithiau diwygio lles, megis cefnogi pobl i hawlio'r budd-daliadau llawn y mae ganddynt hawl iddynt fel y gallant fwyafu eu hincwm.

- Buddsoddi i wella tai ac adeiladu tai cyngor mwy ynni-effeithlon a chefnogi adeiladu tai fforddiadwy i helpu i ddiwallu'r angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio stadau a dod â buddion economaidd a chyflogaeth ehangach.

- Atal digartrefedd a chefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau i helpu i gynnal sefydlogrwydd a diogelwch i deuluoedd a chymunedau er mwyn diogelu iechyd a lles ac atal eithrio cymdeithasol.

- Archwilio i'r syniad o greu ein menter ynni ein hunain i ddarparu ynni rhad i gartrefi, gan helpu i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel a thlodi tanwydd.

- Cefnogi mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, helpu i ddileu tlodi tanwydd a rhoi hwb i ddatblygiad economaidd drwy'r cynllun ARBED a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol.

- Cefnogi unigolion i oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth drwy gefnogaeth cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar y person.

- Darparu cyfleoedd celf, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunanbarch a dyhead.

- Rhoi'r *Cynllun Cyflwyno Cydlyniant Cymunedol* ar waith i hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus;	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru iachach	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
☑	☑	☑	☑	☑	☑	

Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* - helpu i atal biliau tanwydd uchel a'r 'premiwm tlodi' drwy adeiladu tai cyngor ynni-effeithlon ac archwilio'r syniad o greu ein menter ynni ein hunain i ddarparu ynni am ddim i aelwydydd.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - helpu i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth a chael pobl i ddechrau gwaith drwy gynlluniau cyflogaeth cydlynus sy'n canolbwyntio ar y person, gofal plant a chludiant fforddiadwy.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - gweithio gyda'n partneriaid iechyd drwy gynllun *Dechrau'n Deg* i sicrhau bod plant yn eu blynyddoedd cynnar yn barod ar gyfer yr ysgol a dysgu.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - cydnabod bod lleihau tlodi'n fusnes i bawb a bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rôl allweddol wrth sicrhau bod hyn yn digwydd ar draws yr holl sectorau.

- *Cynnwys pobl* - gweithio mewn cymunedau, ymgysylltu â phobl a'u cynnwys yn llwyddiannus a chydgynhyrchu gyda hwy i adeiladu gwydnwch a lleihau dibyniaeth.

Sut byddwn yn mesur cynnydd.

- Budd-daliadau lles yn cael eu sicrhau gan y gwasanaeth Hawliau Lles.

- Prydlondeb wrth brosesu ceisiadau Budd-dal Treth y Cyngor a thai a newid amgylchiadau.

- Nifer cyfartalog y diwrnodau y mae teuluoedd digartref â phlant yn eu treulio mewn llety gwely a brecwast.

- Nifer y bobl sy'n cael cyflogaeth drwy Gefnogaeth Cyflogadwyedd.

- Nifer y cymwysterau achrededig a enillwyd gan oedolion gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol.

- Cyflwyno'r Strategaeth Trechu Tlodi a'r Strategaeth Atal a dangos cyflawniad amlwg yn y strategaethau.

- Cyflwyno'n *Strategaeth Ynni Gorfforaethol*.

- Cyflwyno'n strategaeth *Mwy o Gartrefi*.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod	Bydd pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda	Gweithio gyda natur	Cymunedau cryf
☑		☑	☑

Cynnal a chyfoethogi **Adnoddau Naturiol a Bioamrywiaeth Abertawe**.

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.

- Byddwn yn ceisio, ar draws yr amrywiaeth o gyfrifoldebau'r cyngor gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, lleihau ein hôl-troed carbon a gwella'n gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol a'n dealltwriaeth ohono, gan wella'n hiechyd a'n lles yn sgîl hynny.

- Mae Abertawe'n un o'r siroedd mwyaf amrywiol a chyfoethog o ran ei hecoleg yn y DU. Mae angen cynnal, cyfoethogi a rheoli ei hamrywiaeth unigryw o gynefinoedd a rhywogaethau, ei hystod o barciau, mannau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau a thirweddau penigamp yn gynaliadwy, er lles pawb, yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

- Mae ein goroesiad a'n hansawdd bywyd yn y dyfodol yn ddibynnol ar amgylchedd naturiol cydnerth a'r amryfal fuddion y mae'n eu darparu i gymdeithas.

- Mae ein hamgylchedd naturiol a'n bioamrywiaeth dan fygythiad ac yn dirywio oherwydd gweithgareddau dynol anghynaladwy. Mae cynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu colli ar gyflymdra brawychus ac anghynaladwy.

- Mae angen i ni fynd i'r afael ar frys â newid yn yr hinsawdd drwy leihau ein defnydd o garbon a thrwy gynnal a chyfoethogi ecosystemau cydnerth a rhwydwaith isadeiledd gwyrdd cryf i'n helpu i liniaru pwysau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.

- Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (nod Cymru Gydnerth) i warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chynnal ecosystemau cydnerth, ac adrodd wrth Lywodraeth Cymru am ein cynnydd.

- Dengys tystiolaeth fod iechyd corfforol a meddyliol pobl yn elwa'n sylweddol o gyswllt â byd natur.

- Mae ein ffyniant a'n lles yn y dyfodol yn ddibynnol ar amgylchedd naturiol iach a chydnerth.

- Mae angen i ni weithio gyda natur i wella ansawdd ein haer, ein dŵr a'n priddoedd.

- Rydym am i bawb ddeall a gwerthfawrogi gwerth unigryw a breuder amgylchedd naturiol eithriadol Abertawe a chwarae ei ran wrth ofalu amdano a'i gyfoethogi.

- Ein huchelgais yw y gall pawb yn Abertawe gael mynediad at amgylchedd naturiol sy'n ecolegol amrywiol, yn ddeniadol, yn gydnerth ac wedi'i reoli'n dda.

- Rydym am roi terfyn ar golli bioamrywiaeth a gwrthdroi'r golled hon fel nad yw ei chyfraniad at les economaidd neu gymdeithasol Abertawe'n cael ei golli na'i leihau.

- Rydym yn ceisio creu sir wyrddach, fwy cynaliadwy, lle caiff ei hamgylchedd naturiol unigryw ei chydnabod fel un o'i hasedau mwyaf gwerthfawr a nodweddiadol.

- Mae gennym gyfrifoldeb moesol i ofalu am fioamrywiaeth am ei gwerth cynhenid ei hun.

Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

- Rhoi terfyn ar golli bioamrywiaeth a gwrthdroi'r golled drwy leihau niwed a defnydd anghynaladwy a symud i sefyllfa lle'r ydym yn gweithio gyda natur i gynnal ecosystemau iach a chydnerth a fydd yn parhau i ddarparu buddion ansawdd bywyd tymor hir (neu wasanaethau ecosystemau) y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt.

- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sy'n un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu. Mae angen i ni weithio gyda natur i leihau ein hôl troed carbon a lliniaru ar gyfer y risgiau a'r effeithiau tebygol ac addasu iddynt.

- Creu swyddi gwyrdd o safon sy'n gynaliadwy ac yn amgylcheddol gyfrifol sy'n gwneud yn fawr o'n hadnoddau naturiol unigryw e.e. drwy dwristiaeth amgylcheddol, rheoli tir gwledig yn gynaliadwy, diwydiannau a chrefftau morol.

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd a lles drwy gynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol hygyrch o safon ledled y sir gyfan, ac annog mwy o ddefnydd o dir â mynediad cyhoeddus megis parciau, gwarchodfeydd natur, tir comin a choedwigoedd.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.

- Datblygu ac addasu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol (Adran 6) a'i roi ar waith.

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer Abertawe.

- Datblygu ac addasu Polisi Coed y cyngor.

- Dechrau mapio'r asedau isadeiledd gwyrdd a'r ddarpariaeth gwasanaethau ecosystemau presennol, a nodi meysydd sy'n darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer gwelliant.

- Cynnal awdit bioamrywiaeth rhagarweiniol o dir sy'n eiddo i'r cyngor a, lle y bo modd, reoli ein hasedau corfforaethol er budd bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol.

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth a'u rhoi ar waith, a gwell cysylltedd ecolegol.

- Gweithio tuag at greu economi carbon isel sy'n hybu ynni adnewyddadwy ac sy'n cymryd camau i leihau ein hôl troed carbon.

- Parhau i gymryd rhan ym Menter Carbon Isel Abertawe a'i chefnogi.

- Cefnogi mentrau a fydd yn cynyddu nifer y coed sydd yn ardaloedd trefol Abertawe.

- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol drwy ddarparu gwybodaeth, hyfforddiant a digwyddiadau.

- Darparu cyfleoedd i blant ysgol gael mynediad at yr amgylchedd naturiol a dysgu amdano.

- Gweithio tuag at wella mynediad at ein parciau a'n mannau gwyrdd a chynnal eu hansawdd.

- Parhau i gyflwyno rhaglen o blannu a rheoli blodau gwyllt.

- Ymgysylltu â chymunedau lleol i annog gwirfoddoli a'u cefnogi i gymryd camau gweithredu i wella a chynnal eu mannau gwyrdd a'u safleoedd bywyd gwyllt lleol.

- Cymryd camau gweithredu i helpu i reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol.

- Mynd ati i wella mannau gwyrdd (wedi'u dethol neu eu targedu) fel rhan o raglen gwaith amgylcheddol i fodloni'n hymrwymiad i Safon Ansawdd Tai Cymru.

- Lleihau ein defnydd o gynnyrch a deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu, ac ailgylchu mwy o wastraff.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus;	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru iachach	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
☑	☑		☑	☑	☑	☑

Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.

- *Atal problemau rhag codi neu waethygu* - Drwy roi terfyn ar ddirywiad bioamrywiaeth a chynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol cydnerth, byddwn yn cynnal gwasanaethau ecosystemau hanfodol (e.e. lliniaru llifogydd, ansawdd aer

a dŵr, storio carbon a pheillio) a helpu i gynnal iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl. Drwy helpu pobl i ddeall achosion problemau a sut gallwn, drwy weithio gyda natur, atal problemau rhag codi. Drwy sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth ac osgoi canlyniadau peidio â chydymffurfio.

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - Rydym am roi terfyn ar golli bioamrywiaeth, gan hybu ecosystemau cydnerth a chryfhau isadeiledd gwyrdd er mwyn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru, a sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol a'r buddion a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu'n cael eu diogelu er lles cenedlaethau'r dyfodol.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - Byddwn yn parhau i gefnogi eraill a chydweithio â nhw i gydlynu cyflwyno camau gweithredu a mwyafu'r defnydd o adnoddau.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - Drwy gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a sicrhau yr ystyrir hyn ar gamau cynnar penderfynu ynghylch/dylunio cynlluniau a phrosiectau, bydd y potensial am wrthdaro'n cael ei leihau.

- *Cynnwys pobl* - Byddwn yn adeiladu gallu ac yn cyflawni mwy drwy gynnwys y gymuned leol a'i chefnogi fel y gall fod yn rhan o nodi a chyflwyno mentrau sy'n cynnal ac yn cyfoethogi'r amgylchedd naturiol. Caiff mwy o bobl eu galluogi i gael mynediad at yr amgylchedd naturiol a'i fwynhau.

Sut byddwn yn mesur cynnydd [3].

- Byddwn yn adrodd am gynnydd tuag at gyflwyno Adran 6 y Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol a'r nod Cymru Gydnerth drwy gynllunio busnes a dulliau adrodd blynyddol.

- Byddwn yn datblygu dulliau i fesur maint colledion ac enillion mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol a'i ansawdd.

- Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd aer a dŵr.

- Byddwn yn cofnodi nifer y bobl sy'n gwirfoddoli i wneud gwaith amgylcheddol a'r oriau a dreulir yn gwneud hynny.

- Byddwn yn cofnodi nifer y digwyddiadau amgylcheddol a nifer y bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.

- Byddwn yn cofnodi nifer y cyrsiau hyfforddiant sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a nifer y bobl sy'n eu cyflawni.

- Byddwn yn sefydlu Gweithgor Bioamrywiaeth Corfforaethol i fonitro cynnydd tuag at gyflwyno cynllun Adran 6.

- Cyfraddau ailgylchu.

[3] Dros dro wrth aros am ddatblygiad data. Adrodd yn debygol o ddechrau yn 2019/20.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod	Bydd pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda	Gweithio gyda natur	Cymunedau cryf
☑	☑	☑	☑

Trawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan lles.

- Rydym am foderneiddo a thrawsnewid y cyngor drwy ein rhaglen *Abertawe Gynaliadwy: Yn Addas i'r Dyfodol* i helpu i fynd i'r afael â galw cynyddol a lleihau cyllidebau refeniw.

- Rydym am foderneiddio gwasanaethau drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, lleihau gweinyddiaeth a gwasanaethau swyddfa gefn. Rydym am greu incwm ychwanegol i dalu am wasanaethau a helpu teuluoedd yn gynt fel y gallwn leihau costau yn nes ymlaen.

- Rydym am wella effeithlonrwydd a lleihau costau rheoli a chefnogi busnes ymhellach. Rydym hefyd am adolygu ein holl wasanaethau i sicrhau y cânt eu cyflwyno yn y ffordd orau bosib ac er mwyn arbed arian drwy weithio gyda phartneriaid fel yr Heddlu ac iechyd, neu drwy atal yr angen am fynediad at wasanaethau statudol costus lle gellir diwallu'r anghenion hynny mewn ffordd arall.

- Rydym am i'r cyhoedd chwarae eu rhan drwy gydgynhyrchu gwasanaethau a helpu i'w cynnal, fel y cynllun llwyddiannus lle mae bowlwyr yn cynnal eu lawntiau eu hunain, neu drwy ailgylchu mwy gartref.

- Rydym am i fwy o bobl fod yn rhan o fusnes y cyngor ac wrth wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnyn nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau.

- Rydym am fuddsoddi yn ein blaenoriaethau fel canol y ddinas, gwella ystafelloedd dosbarth, gwella ac ehangu'n stoc tai ynni-effeithlon a chyflwyno'r Fargen Ddinesig sydd â'r potensial i greu 10,000 o swyddi.

Yr heriau tymor hwy y bydd yr amcan lles hwn yn helpu i fynd i'r afael â hwy.

- Mae galwadau a disgwyliad gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu ond mae llai o arian ar gael i'w cyflwyno.

- Mae preswylwyr yn disgwyl i wasanaethau gael eu darparu y tu allan i oriau swyddfa arferol, bod yn gydlynus ac yn bersonol i'w hanghenion.

- Mae pobl yn disgwyl y gallant gysylltu â sefydliadau cyhoeddus ac ymdrin â hwy mewn ffyrdd gwahanol, ac yn ceisio'n gynyddol i gysylltu â'r cyngor drwy'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Gallai datblygiadau yn y defnydd o Ddata Mawr a deallusrwydd artiffisial drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio, gan gynnwys awtomateiddio a gwasanaethau wedi'u targedu'n well.

- Mae'n debygol y caiff mwy o wasanaethau eu darparu mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys cyrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector yn unol â diwygiadau llywodraeth leol.

Y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan lles hwn.

- Adolygu rhaglen foderneiddio *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* a pharhau â hi er mwyn trawsnewid gwasanaethau, darparu gwell canlyniadau i breswylwyr a chyflawni cynaladwyedd ariannol.

- Cefnogi a hyfforddi gweithlu'r cyngor drwy'r *Strategaeth Datblygu Sefydliadol* i gyflwyno gwasanaethau wedi'u trawsnewid fel bod gennym y bobl iawn â'r sgiliau iawn, sydd â'r llwybr datblygu a'r gwobrau priodol, a'n bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n rhoi'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i breswylwyr.

- Newid diwylliant sefydliadol y cyngor i gefnogi "gweithio gyda'n gilydd, gweithio'n wahanol" a gwreiddio trawsnewid, arloesedd a dysgu sefydliadol.

- Gwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes cyflwyno gwasanaethau drwy Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a benodir ym mhob gwasanaeth.

- Adolygu ymagwedd y cyngor at gaffael i sicrhau buddion economaidd a chymunedol lleol, yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

- Parhau i wreiddio strategaeth "Digidol yn Gyntaf" fel y gall dinasyddion gael mynediad at fwy o wasanaethau a gwybodaeth y cyngor drwy lwyfannau digidol a'r cyfryngau er mwyn arbed costau, gwella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth a chynyddu boddhad cwsmeriaid.

- Hybu cynhwysiad digidol a galluogi pobl i gyrchu gwasanaethau ar-lein drwy ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes i ddinasyddion ymgymryd â chyrsiau a hyfforddiant cyfrifiadurol am ddim.

- Archwilio cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill a rhannu gwasanaethau, gan gynnwys rhai swyddfa gefn, i arbed costau a gwella gwasanaethau i ddinasyddion.

- Ymgysylltu'n fwy effeithiol a phenodol â'r trydydd sector a'r sector preifat er mwyn datblygu mwy o waith cydweithredol a phartneriaeth i gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau a rennir y cyngor.

- Adolygu gwaith gyda chymunedau, sefydliadau a grwpiau 'ffrindiau' i annog a galluogi mwy o berchnogaeth gymunedol o ran asedau a gwasanaethau a sicrhau eu cynaladwyedd tymor hir.

- Parhau i foderneiddio cynnwys y cyhoedd mewn democratiaeth leol a phrosesau gwneud penderfyniadau'r cyngor drwy amserau cyfarfodydd mwy hygyrch, darlledu dros y we, pleidleisio electronig ac e-ddeisebau.

- Parhau i gryfhau'r gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaethau iaith a gynigir yn gyffredinol gan y cyngor drwy ddarparu hyfforddiant iaith sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen.

- Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu, gyda'i cynrychiolwyr, beth yw eu blaenoriaethau lleol.

- Darparu'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut caiff polisïau eu llunio a gwasanaethau eu cyflwyno drwy ddatblygu ymagwedd gydgynhyrchu ac ymrwymiad gan Abertawe.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at y nodau cenedlaethol.

Cymru lewyrchus	Cymru gydnerth	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus;	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru iachach	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
☑		☑	☑	☑		

Sut byddwn yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio.

- *Atal problemau rhag digwydd neu waethygu* - helpu i atal pobl rhag gorfod troi'n syth at wasanaethau statudol drwy lif 'atal' y rhaglen *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.*

- *Mynd i'r afael â heriau tymor hir* - newid y ffordd y mae'r cyngor yn gweithio, gan gynnwys mwy o wasanaethau digidol i adlewyrchu'r symudiad tuag at fwy o bobl y maent am gael mynediad at wasanaethau drwy ddulliau digidol, symudol, y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.

- *Gweithio mewn partneriaeth ag eraill* - cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector i gyflwyno gwasanaethau.

- *Osgoi gwrthdaro rhwng amcanion cyrff cyhoeddus* - gwella ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i helpu i gefnogi trawsnewid gwasanaethau'r cyngor.

- *Cynnwys pobl* - cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn adolygiadau comisiynu o wasanaethau'r cyngor, ac mewn mentrau gweithredu yn y gymuned a pherchnogaeth.

Sut byddwn yn mesur cynnydd.

- Arbedion ac incwm refeniw'r gronfa gyffredinol a nodwyd ar gyfer y flwyddyn o'u cymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn wreiddiol.

- Nifer y taliadau a'r ffurflenni a gwblhawyd ar-lein.

- Unrhyw achosion o dorri diogeledd data.

- Y gweithlu'n cael ei gefnogi i ddatblygu sgiliau a dysgu pethau newydd fel rhan o strategaeth datblygu sefydliadol wedi'i thargedu tuag at weithlu mwy hyblyg a gweision cyhoeddus yr 21ain ganrif.

- Cyfraddau salwch staff.

Cyfraniad yr amcan lles hwn at amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd i fod y gorau y gallant fod	Bydd pobl yn byw'n dda ac yn heneiddio'n dda	Gweithio gyda natur	Cymunedau cryf
	☑		☑

5. Monitro cyflawniad – monitro perfformiad yn barhaol

Byddwn yn monitro'r cyflwyno ac yn adolygu'n cynnydd wrth gyflawni'n hamcanion lles fel a ganlyn:

Sut byddwn yn monitro cynnydd

- Drwy adroddiadau monitro perfformiad chwarterol a blynyddol i'r Cabinet.

Sut byddwn yn adrodd ar gyflawniadau

- Yn chwarterol ac yn flynyddol drwy'r Cabinet.
- Adroddiad Blynyddol.

Pryd a sut caiff y cynllun hwn ei ddiwygio

- Adolygiad a diweddariad blynyddol.

6. Camau nesaf – yr hyn ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Rydym wedi gwneud peth cynnydd da wrth wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio yn y ffordd rydym yn gwneud busnes fel a ddangosir yn y cynllun hwn; rydym am barhau i adeiladu ar hyn.

Er mwyn bodloni'n rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol, rydym am:

- sicrhau galluoedd digonol a chydlynol a gallu o ran cynllunio strategol,
- parhau i chwilio am ffyrdd o gynyddu cyfranogaeth dinasyddion;
- ceisio creu arolwg strategol tymor hwy, yn edrych hyd at 25 neu fwy o flynyddoedd i'r dyfodol,
- sicrhau integreiddio strategol a chydlyniant rhwng cynlluniau a strategaethau,
- gweithio i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn llywio'r strategaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau, a;
- pharhau i wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio ymhellach.

7. Ble i gael mwy o wybodaeth

Strategaethau, cynlluniau a pholisïau
https://www.abertawe.gov.uk/polisïau

Perfformiadau ac ystadegau
https://www.abertawe.gov.uk/ystadegau

Cyllid a chyllideb y cyngor
https://www.abertawe.gov.uk/cyllidachyllideb

Craffu
https://www.abertawe.gov.uk/craffu

Datblygu Cynaliadwy
http://www.abertawe.gov.uk/datblygucynaliadwy

Diogelu
http://www.abertawe.gov.uk/diogelu

Ysgolion a dysgu
http://www.abertawe.gov.uk/ysgolionadysgu

Hawliau Plant a Phobl Ifanc CCUHP
http://www.abertawe.gov.uk/ccuhp

Bargen Ddinesig Bae Abertawe
http://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/

Bae'r Gorllewin
http://www.westernbay.org.uk//

Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
http://www.erw.cymru/

Dweud eich Dweud – ymgynghoriadau
http://www.abertawe.gov.uk/dweudeichdweud

Cynllun Cydraddoldeb Strategol
http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol

Y Gymraeg
http://www.abertawe.gov.uk/cymraeg